



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru



Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

ADRODDIAD BLYNYDDOL

AR YR IAITH GYMRAEG

2019 - 2020

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2019 - 2020

MYNEGAI

- 1. Cyflwyniad a Chefndir**
- 2. Trosolwg o 2019-20**
- 3. Gweithredu'r Safonau**

1. **Cyflwyniad a Chefndir**

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), diffiniwyd darpariaeth gwasanaethau Gymraeg gan Gynlluniau Iaith Gymraeg wedi'u datblygu'n unigol a gytunwyd rhwng cyrff cyhoeddus unigol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r trefniant hwn bellach wedi'i ddisodli gan Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u diffinio'n genedlaethol, a gall Comisiynydd y Gymraeg gymhwyso detholiad ohonynt i gyrff cyhoeddus (a rhai cyrff preifat, ymhen amser).

Diffiniwyd y fframwaith ar gyfer pennu safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011), gyda'r safonau eu hunain wedi'u nodi yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r safonau sy'n berthnasol i'r Comisiwn wedi'u diffinio mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2016, gyda dyddiad dod i rym ym mis Gorffennaf 2017. Yr hysbysiad hwn yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu cydymffurfedd y Comisiwn.

Hwn yw trydydd Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ers i'r safonau ddod i rym, ac mae'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

2. **Trosolwg o 2019 - 20**

Y ffocws ar gyfer 2019 – 20 oedd sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd y Comisiwn i gynnal ei 25% o siaradwyr Gymraeg yn ei weithlu a pharhau i wella ei allu i ddarparu gwasanaeth Gymraeg effeithiol i'w randdeiliaid. Hefyd, mae'r Comisiwn wedi cynnig cymorth i aelodau staff a ddechreuodd ar gyrsiau 'Dysgwyr', yn ogystal â'r rhai a oedd eisiau gwella eu medrau Gymraeg 'Busnes'.

Ystyriodd y Comisiwn ganlyniadau ymarfer 'Siopwr Cudd' Comisiynydd y Gymraeg ac, fel rhan o'r prosiect gwednewid TGCh, daeth y Comisiwn o hyd i ateb i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu ei Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg ymhellach i wella'r ystyriaeth y mae'r Comisiwn yn ei rhoi i'r Gymraeg yn ei arolygon etholiadol.

Yn ystod y flwyddyn, codwyd un gŵyn yn ymwneud â'r modd y mae'r Comisiwn yn gweithredu'r safonau. Roedd y gŵyn hon yn ymwneud â chyflwyno cyfrifon y Comisiwn gan Swyddfa Archwilio Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar ôl ymchwilio i'r gŵyn, mae'n bleser gan y Comisiwn gadarnhau ei fod yn cyflwyno ei gyfrifon yn Gymraeg a Saesneg. Ar yr achlysur hwn, cyflwynwyd y cyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd yn ymwneud ag amseru.

3. **Gweithredu'r Safonau**

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

O ran gohebiaeth, mae'r holl lythyrau a negeseuon e-bost gweithdrefnol a anfonwyd fel rhan o'r broses arolygon wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg a'u hanfon ar yr un pryd. Ar gyfer eitemau eraill o ohebiaeth, mae system dewis iaith wedi'i rhoi ar waith. Lle nad yw'r dewis iaith yn hysbys, caiff gohebiaeth ei llunio yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn parhau i gadw cronfa ddata sy'n cofnodi dewis iaith unigolion rydym yn cysylltu â nhw (rhifau Safonau 1 i 7).

Mae gweithdrefnau ar waith mewn perthynas ag ateb y prif rif ffôn ac mae gwasanaeth peiriant ateb Cymraeg ar waith (Safonau rhif 8 i 22).

Mae gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Wrth drefnu cyfarfodydd, mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill y mae angen iddynt ddilyn safonau'r Gymraeg, fel awdurdodau lleol (Safonau rhif 24 i 30).

Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 31 i 34).

Cafodd yr holl ddogfennau a luniwyd at ddefnydd y cyhoedd eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd (Safonau rhif 36, 44 a 45).

Ni luniwyd unrhyw ffurflenni a oedd ar gael i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 46 i 47).

Mae'r holl dudalennau ar wefan y Comisiwn yn gwbl weithredol ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 48, 51 a 52).

Gwneir defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 54 a 55).

Mae'r holl arwyddion a hysbysiadau wedi'u llunio yn Gymraeg a Saesneg i'r safon ofynnol (Safonau rhif 57 i 59, 65 a 66).

Mae nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y Comisiwn wedi galluogi'r Comisiwn i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg, yn ôl y gofyn (Safonau rhif 61).

Lluniwyd yr holl ddeunydd contractau yn Gymraeg a Saesneg a dilynwyd y gweithdrefnau trin a thrafod priodol (Safonau rhif 72,73, 75 a 76).

Ni chafwyd unrhyw wasanaeth Cymraeg newydd ac ni fu unrhyw newid i hunaniaeth gorfforaethol yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 77 i 79).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 149 a 153).

Mae Polisi Cwynion Safonau'r Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac mae ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 150 i 151).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau (Safon rhif 152).

Ni wnaeth Comisiynydd y Gymraeg unrhyw geisiadau am wybodaeth mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 154).

Safonau Llunio Polisi

Ni luniwyd unrhyw bolisiâu newydd nac adolygiadau o bolisiâu presennol yn ystod y flwyddyn a oedd yn mynnu ymgymryd ag Asesiad o Effaith Polisi ar yr Iaith Gymraeg (Safonau rhif 84 i 89).

Ni chynhaliwyd na chomisiynwyd unrhyw waith ymchwil yn ymwneud â pholisi yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 91 i 93).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut dylid cydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 155 a 157).

Mae Polisi Cwynion Safonau'r Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 156).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau llunio polisi (Safon rhif 158).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut dylid cydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safon rhif 159).

Ni chafwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â'r safonau llunio polisi yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 160).

Safonau Gweithredu

Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ar waith ac mae copi wedi'i ddarparu i'r holl staff a'r Comisiynwyr (Safon rhif 94).

Caiff yr holl ddewisiadau iaith ar gyfer pob aelod staff newydd ac aelodau staff presennol eu casglu, a gweithredir arnynt yn briodol (Safonau 95 i 100).

Mae gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw bolisiâu staffio newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 101 i 107).

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer gwneud cwynion ac ymateb i gwynion a wnaed i aelodau staff ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 108, 108A, 110 a 111).

Mae gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â materion disgyblu ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 112, 112A, 114 ac 115).

Cynhaliwyd gwaith parhaus i ddatblygu mewnwyd y Comisiwn, a bydd hyn yn parhau yn 2020 – 21 i sicrhau cydymffurfedd lawn (Safonau 118, 120 i 123).

Cynhaliwyd asesiad o sgiliau Cymraeg yr holl staff; caiff ei gynnal, ac ychwanegir ato ar gyfer staff newydd (Safon 123), Atodiad 1.

Ym mhob cyfarfod tîm misol, mae pob aelod staff wedi cael gwybod am gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn perthynas â'r Gymraeg, ac maent yn cael eu hannog i ymgymryd â'r cyfleoedd hyn. Hefyd, anogir aelodau staff newydd i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae pob aelod o staff wedi cael copi o'r Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith a dogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau y Comisiwn, fel bod ganddynt ddealltwriaeth o ddyletswydd y Comisiwn i weithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg a sut gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (Safonau 126 i 129).

Mae geiriad priodol a chyfarwyddiadau mewn perthynas â llofnodion e-bost a manylion cyswllt wedi'u darparu i'r holl staff (Safonau 130 a 131).

Mae trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â sgiliau Cymraeg swyddi, a hysbysebu a llenwi swyddi gweigion (Safonau 132 i 133B, 135 i 136). Ceir manylion am y swyddi a hysbysebwyd yn Atodiad 2.

Ni chodwyd unrhyw arwyddion newydd yn ystod y flwyddyn (Safonau 137 i 139).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut i gydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn nogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 161 a 163 a 165).

Mae Polisi Cwynion Safonau'r Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 162).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau gweithredu (Safon rhif 164).

Ni chafwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â'r safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 166).

Safonau Cadw Cofnodion

Cafwyd un gŵyn yn ymwneud â chydymffurfedd y Comisiwn â'r Safonau neu'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Roedd y gŵyn yn ymwneud â chyflwyno'r cyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cadarnhaodd y Comisiwn i'r achwynydd fod y Comisiwn yn cyflwyno ei gyfrifon yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 141 i 143).

Mae Cofnod Cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg wedi'i greu ac fe'i cedwir i sicrhau bod cofnod o gydymffurfedd â'r safonau ar gael (Safonau 144 i 148).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cadw cofnodion sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut i gydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn nogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 167).

Ni chafwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â'r safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 168).

Atodiad 1**Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 123**

Mae'r tabl hwn yn manylu ar yr aelodau staff a oedd yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2019/20 (Mawrth 2020). Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar y cofnodion a gedwir yn unol â Safon 123.

Sgiliau (Lefelau 0-5)	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwranddo	6	4	0	0	0	3	13
Darllen	5	4	1	0	0	3	13
Siarad	7	3	0	0	2	1	13
Ysgrifennu	7	3	0	0	2	1	13

Atodiad 2**Recriwtio i Swyddi: Safon 132**

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y swyddi a hysbysebwyd yn 2019-20 dan bob un o'r gofynion sgiliau Cymraeg. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r cofnodion a gedwir yn unol â Safon 132.

Cymraeg yn hanfodol	0
Cymraeg yn ddymunol	2
Cymraeg i'w dysgu	0
Nid yw'r Gymraeg yn angenrheidiol	0